# CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH: 2020 – 2023 - DRAFFT

## GWASANAETH LLYFRGELL I YSGOLION

## YSGOLION UWCHRADD AC
## YSGOLION DILYNOL (ADRAN OEDRAN UWCHRADD)

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yn weithredol i'r ysgolion hynny lle ceir disgyblion 11-18 oed, lle bo'r lleoliadau hyn dan reolaeth Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

Byddwn yn darparu'r gwasanaethau isod er mwyn cynorthwyo ysgolion Uwchradd i brynu llyfrau mewn modd cost effeithiol, a hynny er mwyn cefnogi darllen a llythrennedd plant, i gefnogi darllen er pleser a chyflenwi adnoddau i gefnogi dysgu lle gofynnir am hynny.

**Prynu Llyfrau** - Yn unol â chost y pecyn, byddwn yn cynnig gwasanaeth prynu llyfrau ar eich rhan i gefnogi darllen disgyblion 11-14 oed yn bennaf, yn Gymraeg a Saesneg. Eiddo'r Ysgol fydd y llyfrau yma a byddant yn aros yn yr Ysgol.

Byddwn yn ymgynghori gyda staff yr ysgol ac yn prynu llyfrau ar eich rhan, yn unol â gofynion ac anghenion yr Ysgol.

Bydd natur, amrediad a chynnwys yr adnoddau a brynir yn cael ei drafod a'i gytuno ymlaen llaw a'r ysgol Uwchradd/ ysgol Ddilynol er mwyn adlewyrchu gofynion ac anghenion penodol a byddwn yn trafod a chytuno ar y rhaniad ieithyddol, ystod oedran, lefel darllen a'r rhaniad rhwng ffuglen a ffeithiol mae'r ysgol eisiau ei weld.

Trwy'r trefniant sydd gan y Gwasanaeth Llyfrgell o fod yn rhan o Gonsortiwm Pwrcasu cenedlaethol i Gymru, byddwn yn gallu cael gostyngiadau sylweddol ar bris prynu llyfrau, a gallwn fanteisio ar ostyngiadau rhwng 30-35% ar lyfrau Saesneg a hyd at 15% ar lyfrau Cymraeg. Bydd hyn yn cynnig gwerth ychwanegol i chi am eich arian.

Rydym yn gwarantu bod y gost a delir gan ysgol yn cael ei wario ar lyfrau, ac ni fyddwn yn codi ffi weinyddol o gwbl am y gwasanaeth hwn.

Bydd y trefniant yn weithredol o ddechrau Ebrill i ddiwedd Mawrth yn unol â blwyddyn ariannol Cyngor Gwynedd.

Bydd y llyfrau yn eich cyrraedd wedi eu prosesu gyda siaced blastig (ar gost). Os nad ydych eisiau siaced blastig ar y llyfrau, dylech ein hysbysu o'ch dymuniad ymlaen llaw ac mewn da bryd.

Byddwn yn cludo'r llyfrau i'r ysgol yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn ar ddim cost ychwanegol.

Byddwn yn darparu adroddiad o wariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gais.

Mae'r trefniant hwn yn cynnwys pwrcasu llyfrau yn yr iaith Gymraeg a Saesneg yn unig. Ni allwn ymgymryd â phwrcasu llyfrau mewn ieithoedd eraill.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i bwrcasu unrhyw deitlau penodol a ofynnir amdanynt, ond ni allwn warantu y gallwn bwrcasu pob teitl, am wahanol resymau tu hwnt i'n rheolaeth.

**Cyngor proffesiynol** - Am gost ychwanegol ar sail cost yr awr, cynigir cyngor a gwasanaeth i ysgolion gan Lyfrgellydd ar gynllunio, datblygu a threfnu llyfrgelloedd ysgol, chwynnu a gwaredu stoc.

NG/11/2019